



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bryngwyn
Dafen
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 8RP**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Ysgol gymysg, gymunedol 11-16 yw Ysgol Bryngwyn, a gynhelir gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae wedi'i lleoli yn Nafen, yng ngogledd-ddwyrain Llanelli, ac mae ei disgyblion yn dod o ganol y dref ac o nifer o bentrefi cyfagos. Mae 891 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu â 967 adeg yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2006.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer yr ystod gallu lawn. Mae gan 4% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.6%. Mae gan 29% arall o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig ond dim datganiad. Mae'r ffigur hwn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.6%. Saesneg yw prif iaith y disgyblion ac mae 4% o boblogaeth yr ysgol yn cynnwys disgyblion ethnig lleiafrifol. Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am naw disgybl.

Mae dau ddeg naw pwynt pedwar y cant o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae gan 19.3% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%.

Mae aelodaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth wedi newid yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2010 a dechreuodd y dirprwy bennaeth ar ei swydd yn Ionawr 2011. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth hefyd yn cynnwys pennaeth cynorthwyol a phedwar cyfarwyddwr dysgu.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryngwyn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,346 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yw £7,322 a'r isafswm yw £4,096. Mae Ysgol Bryngwyn yn chweched o 14 ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae Ysgol Bryngwyn yn ysgol ragorol oherwydd:

- bod disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cyflawni safonau uchel;
- bod ansawdd yr addysgu'n gyson uchel ac yn cael effaith sylweddol ar ddatblygu medrau disgyblion a chodi safonau;
- bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu yn effeithiol;
- bod gweithio mewn partneriaeth, yn arbennig gyda rhieni neu ofalwyr ac ysgolion cynradd, yn gryf iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a chyflawniadau disgyblion; a
- bod ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad, yn arbennig y cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn rhagorol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- bod yr arweinyddiaeth a ddarperir gan y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhagorol;
- bod diwylliant cryf o atebolrwydd a lefel uchel o ddeialog, rhyngweithio a gwaith tîm rhwng athrawon, rheolwyr canol ac uwch staff;
- bod trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol iawn;
- bod gan yr ysgol hanes cryf iawn mewn sicrhau gwelliant ac wedi gwneud cynnydd da iawn yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf; a
- bod yr ysgol yn mynd ati'n systematig i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid a defnyddir y wybodaeth hon yn fedrus i wella'r ddarpariaeth ac asesu cynnydd dros gyfnod.

Argymhellion

Mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Bryngwyn:

- A1 wneud yn siŵr bod pob disgybl yn mynd i'r afael â gwaith coll neu anghyflawn;
- A2 sicrhau bod llawer o her a chyflymder addas ym mhob gwrs;
- A3 cael gwared ar yr amrywiad yn ansawdd yr adborth ysgrifenedig y mae athrawon yn ei roi i ddisgyblion;
- A4 gwella'r cyfathrebu rhwng y cyngor ysgol a'r corff disgyblion ehangach; a
- A5 chryfhau'r trefniadau ar gyfer cyfnodau tiwtoriaid fel bod eu hansawdd i gyd yn gyson uchel.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 a lefel 7 neu'n uwch ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion hefyd.

Yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, mae cyflawniad yng nghyfnod allweddol 4 yn uwch na chyflawniad y teulu o ysgolion ac mae ymhell uwchlaw'r disgwyladau. Bu tuedd barhaus o welliant mewn cyflawniad wedi bod dros y pedair blynedd diwethaf, er i berfformiad ostwng ychydig yn 2011. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi bod ymhell uwchlaw'r perfformiad ar gyfer y teulu o ysgolion ac ar gyfer ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae cyflawniad mewn graddau A* ac A yn uchel hefyd. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r gwahaniaeth ym mherfformiadau bechgyn a merched yn llai ar y cyfan na'r bwch yng Nghymru a'r teulu. Yng nghyfnod allweddol 4, yn y mwyafrif o ddangosyddion, mae'r gwahaniaethau mewn perfformiad tua'r un fath â rhai'r teulu ac yn is na chyfartaledd Cymru. Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda iawn ar draws ystod o ddangosyddion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig. Ar ôl Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn ac mae'r cyfrannau yn agos at gyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da bron ym mhob gwrs wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac wrth gaffael ystod eang o fedrau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n effeithlon iawn mewn grwpiau bach a pharau. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n hyderus at drafodaethau a dadleuon dosbarth, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cynnig atebion estynedig ar lafar. Mae disgyblion yn ddarllenwyr hyderus sy'n darllen ystod o destunau gyda mynegiant. Maent yn nodi patrymau ac yn llunio casgliadau yn effeithiol. Gall y mwyafrif ohonynt gyfosod gwybodaeth a chyflwyno casgliadau. Ar draws ystod eang o bynciau, mae llawer o ddisgyblion yn llunio darnau o ysgrifennu estynedig neu'n ailddrafftio eu gwaith ar ôl cael adborth gan athrawon. Maent yn ysgrifennu at ystod o ddibenion ac ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd, gan wneud defnydd da o derminoleg sy'n benodol i bwnc. Yn ystod gwarsi, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn datblygu eu medrau meddwl yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo mewn cyflwyno eu gwaith yn dda, er nad yw rhai ohonynt yn olrhain gwaith coll neu anghyflawn, hyd yn oed pan fydd y gwaith hwn wedi cael ei amlygu gan yr athro.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion sy'n cael yr anhawster mwyaf gyda darllen a rhifedd yn gwneud cynnydd da iawn, gan ddilyn ystod o raglenni ymyrraeth. Yn 2011, enillodd bron pob disgybl gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru, gyda thros draean o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn ennill cymhwyster ar lefel 3.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae canlyniadau wedi aros yn weddol sefydlog ac maent yn agos at ganlyniadau ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'n nodedig bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith, a thros y tair blynedd diwethaf, mae mwyafrif y disgyblion wedi ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg TGAU. Mae hyn gryn dipyn yn well nag ydyw mewn ysgolion tebyg ac yn nodwedd ragorol.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae bron pob un ohonynt yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw ac ymarfer corff rheolaidd ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon, yn cynnwys pysgota â phlu, pêl-fasged a gymnasteg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn barchus at eu cyfoedion ac yn groesawgar at ymwelwyr. Ni chafwyd unrhyw waharddiadau parhaol er 2009 ac mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau'n sylweddol dros yr un cyfnod. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawn cymhelliant ac maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon i wersi ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn brydlon i gyfnodau cofrestru.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi gwella'n gyson, ac mae yn y 50% uchaf erbyn hyn o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg.

Mae'r cyngor ysgol yn fforwm brwdfrydig ac mae wedi dylanwadu ar benderfyniadau fel newidiadau i'r wisg ysgol, y ffreutur a'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r cyfathrebu rhwng y cyngor ysgol a'r corff disgyblion ehangach yn rhy anghyson.

Mae gan ddisgyblion rôl arwyddocaol yn y gymuned leol ac mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwirfoddoli yn y gymuned fel rhan o gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae disgyblion hyn yn cwnsela eu cyfoedion fel rhan o raglen CHAT yr ysgol (Cyfrinachedd, Gonestrwydd, Cyngor ac Ymddiriedaeth). Mae hyn, yn ogystal ag ystod o weithgareddau eraill, yn helpu disgyblion i gaffael y medrau cymdeithasol a'r medrau bywyd sydd eu hangen ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni gofynion statudol yn llawn, yn ogystal ag anghenion a dyheadau disgyblion. Mae ystod eang o gyrsgiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 sy'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â'r coleg a'r ysgolion lleol. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n dda iawn ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae ystod eang o weithgareddau pontio effeithiol yn ychwanegu at hyn. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgynefino'n dda yng nghyfnod allweddol 3 ac yn gwneud cynnydd da iawn. Mae 'Ownzone' Bryngwyn yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn cynnwys cymorth y cwricwlwm sesiynau aromatherapi a sgrialu. At hynny, mae ystod eang o weithgareddau chwaraeon hefyd, a reolir gan y swyddog 5x60.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ragorol i ddatblygu medrau disgyblion. Mae'n monitro ac yn olrhain cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno strategaethau ymyrryd priodol pan fydd angen cymorth ychwanegol ar ddisgyblion. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel 1, lefel 2 a lefel 3. Mae disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn dda iawn mewn gwersi ar draws y cwricwlwm i wella eu perfformiad cyffredinol. Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ennill y cymhwyster canolraddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryf iawn. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ddiwylliant a hanes Cymru trwy weithgareddau fel yr eisteddfod flynyddol yn ogystal ag ymweliadau â pherfformiadau theatr Gymraeg a gwerysll Llangrannog. Mae lle amlwg i'r dimensiwn Cymreig yng nghwricwlwm yr ysgol.

Mae darpariaeth dda iawn yn bodoli er mwyn i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a'r rôl sydd ganddyn nhw a phobl eraill mewn cymdeithas a'r byd. Mae'r eco-bwyllgor wedi bod yn effeithiol yn codi ymwybyddiaeth am faterion byd-eang yn yr ysgol.

Addysgu: Rhagorol

Mae addysgu yn yr ysgol yn effeithiol iawn ac fe gaiff effaith sylweddol ar godi safonau cyflawniad. Mae'r lefel uchel o gysondeb yn yr addysgu da neu well yn nodwedd gref iawn yn yr ysgol.

Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol dda iawn a pherthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Mae cynllunio'r athrawon yn fedrus ac fe gaiff tasgau heriol eu llunio i herio a datblygu dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ystod gallu. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, mae diffyg her a'r rhediad araf yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cwestiynau treiddgar, gwaith grŵp ac asesu cyfoedion a hunanasesu. Mae'r strategaethau hyn yn cymhell ac yn ysgogi disgyblion i chwarae rhan weithredol a llawn yn y gwersi.

Mae athrawon yn marcio llyfrau yn rheolaidd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darparu adborth ysgrifenedig manwl ar gynnydd ac yn amlinellu targedau clir ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn rhai adrannau, mae gormod o amrywiad yn ansawdd yr adborth a roddir.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ar lefel unigol, ysgol a phwnc, ac mae'n dadansoddi'r wybodaeth yn drylwyr i nodi meysydd i'w gwella. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar godi safonau uchel a'u cynnal. Defnyddir data'n effeithiol i wobrwyo disgyblion sy'n gwneud cynnydd arbennig o dda ac i nodi a herio tangyflawni. Mae'r adroddiadau i rieni yn glir a llawn gwybodaeth ac mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae partneriaethau eang gydag ystod o sefydliadau allanol yn cynnig cymorth rhagorol i ddysgwyr bregus. Mae'r cymorth targedig hwn ar gyfer grwpiau o ddisgyblion ac unigolion wedi arwain at welliant sylweddol yn agwedd, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Mae'r system gwobrwyo a chosbi yn effeithiol wrth ennyn diddordeb disgyblion o bob oedran, a cheir deilliannau cadarnhaol iawn. Mae'r ysgol yn mynd ati'n effeithiol i annog disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Mae'r ystod eang ac arloesol o weithgareddau allgyrsiol, gyda lefelau uchel o gyfranogiad, yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad diwylliannol a chymdeithasol disgyblion.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn effeithiol. Defnyddir asiantaethau allanol yn briodol i wella'r ffordd y cyflwynir y rhaglen. Mae gwasanaethau a chyfnodau cofrestru yn gwneud cyfraniad cadarn at ethos ysbrydol a moesol yr ysgol ac maent yn cynnig cyfleoedd priodol i fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae ffocws ac ansawdd cyfnodau tiwtor yn rhy amrywiol.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth o ansawdd da iawn, a chyingor ac arweiniad diduedd am ddewisiadau ym mhob cyfnod allweddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eithriadol. Mae fframwaith cydlynol a chydlynus sy'n galluogi disgyblion ag anghenion dysgu i integreiddio'n dda ym mywyd yr ysgol a chyflawni deilliannau da iawn. Er enghraifft, mae grwpiau meithrin a chyfieithydd, a benodwyd ar y cyd gyda phartneriaid rhwydwaith 14-19 i gefnogi disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn darparu cymorth da iawn. Mae cynlluniau addysg unigol yn gynhwysfawr. Maent yn amlinellu targedau addas ac fe gânt eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda ac fe gânt eu cynnwys yn llawn yn addysg a chynnydd eu plentyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol gydag ethos sy'n sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod staff yn eu parchu nhw a'u cefndiroedd ac yn eu helpu i ddatblygu empathi â disgyblion o ddiwylliannau eraill. Mae trefniadau da iawn ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal yn dda a bach iawn o graffiti a sbwriel a geir, sy'n adlewyrchu'r parch a ddangosir gan ddisgyblion at eu hysgol. Mae gwaith adnewyddu tu mewn a wnaed yn ddiweddar, yn cynnwys y toiledau, wedi gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion yn fawr. Fodd bynnag, mae'r ystafelloedd newid addysg gorfforol a'r neuadd chwaraeon yn parhau i fod yn feysydd i'w gwella. Ac eithrio'r manau hyn, mae'r adeiladau a'r adnoddau dysgu, yn enwedig y rhai ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn bodloni anghenion disgyblion yn dda iawn. Gyda'i gilydd, maent yn creu amgylchedd dysgu ysgogol, sy'n annog disgyblion i gyflawni eu llawn botensial.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhagorol. Maent yn rhannu gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol y maent yn ei chyfleu yn dda iawn i'r staff. Gyda'i gilydd, maent wedi creu ysgol a reolir yn dda iawn lle mae safonau ac ansawdd yr addysgu yn gyson uchel. Maent wedi bwrw ymlaen â llawer o ddatblygiadau arloesol, sydd wedi ymestyn ystod ac ansawdd y profiadau dysgu ar gyfer disgyblion ac wedi gwella perfformiad disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf yn sylweddol.

Caiff rolau arwain a rheoli eu dosbarthu'n dda ac mae staff yn ymgymryd â'u rolau yn effeithiol iawn. Mae blaenoriaethau gan uwch arweinwyr yn ysgogi agendâu ar gyfer cyfarfodydd rheolwyr canol. O ganlyniad, mae gan staff ar bob lefel ddealltwriaeth dda iawn o flaenoriaethau ysgol gyfan a'r modd y gallant gyfrannu atynt. Mae lefel y ddeialog, y rhyngweithio a'r gwaith tîm rhwng athrawon, arweinwyr canol ac uwch staff yn uchel iawn.

Mae ansawdd rheoli perfformiad yn rhagorol. Mae athrawon yn cyfarfod â rheolwyr llinell bob pythefnos ac fe gaiff y rhain eu hamserlennu yn ystod y diwrnod ysgol. Caiff athrawon dargedau clir yn ymwneud â pherfformiad rhagweledig disgyblion mewn dosbarthiadau ac adrannau. Mae penaethiaid cynnydd disgyblion (sy'n gyfrifol am grŵp blwyddyn) hefyd yn cael targedau sy'n briodol heriol, yn ymwneud â lles a chynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion yn eu grwpiau blwyddyn. At ei gilydd, mae diwylliant cadarn o atebolrwydd mewn ethos colegol a chefnogol.

Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan weithredol iawn mewn monitro perfformiad yr ysgol. Maent yn monitro adrannau yn rheolaidd, sy'n cynnwys adolygu data perfformiad, trafodaethau gyda disgyblion ac ymweliadau â dosbarthiadau. Wedyn, mae llywodraethwyr yn cyflwyno adroddiadau manwl ar eu canfyddiadau i'r corff

Ilywodraethol llawn. Mae'r corff llywodraethol yn herio'r ysgol yn dda iawn, yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau cwricwlaidd a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft yn ei gwaith ar ddatblygu'r iaith Gymraeg, gwella medrau llythrennedd, gweithio mewn partneriaeth, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a mynd i'r afael â thangyflawniad ymhlith bechgyn.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu eang, trylwyr ac effeithiol, sy'n rhoi dealltwriaeth glir a chywir iawn i arweinwyr o'i chryfderau a'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r broses drefnus hon wedi cael effaith sylweddol ar wella ansawdd a safonau. Er enghraifft, ers yr arolygiad blaenorol, cafwyd gwelliant sylweddol ym mherfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac mewn lleihau absenoldebau anawdurdodedig.

Ar bob lefel, mae gan staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau am fonitro ac arfarnu safonau a gosod blaenoriaethau i ysgogi gwelliannau. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol i arfarnu adrannau. Mae staff hefyd yn dadansoddi data perfformiad yn drylwyr ac yn defnyddio hyn yn dda i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw danberfformio. Mae'r ysgol yn mynd ati'n systematig i gasglu safbwyntiau disgyblion, rhieni, gofawyr a rhanddeiliaid eraill ac mae'n defnyddio'r wybodaeth i wella'i darpariaeth. Caiff deilliannau'r holl weithgareddau hunanarfarnu eu cofnodi mewn adroddiadau hunanarfarnu ysgol a phwnc llawn a chywir.

Mae'r cynlluniau gwella ysgol a phwnc wedi'u seilio'n gadarn ar y canfyddiadau o weithgareddau hunanarfarnu. Mae'r cynlluniau'n cynnwys blaenoriaethau penodol a thargedau heriol ar gyfer gwella.

Mae ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol ar gael i staff, sy'n gysylltiedig â thargedau rheoli perfformiad. Mae pob athro'n cymryd rhan mewn ystod o weithgorau yn yr ysgol, yn cynnwys y rhai sy'n paru ansawdd yr addysgu â deilliannau disgyblion. Caiff pob un o'r grwpiau hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r safonau.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau datblygedig gyda grwpiau'r tu allan i'r ysgol, yn cynnwys gydag ysgolion cynradd partner, ysgolion uwchradd eraill yn eu teulu ac aelodau o'r rhwydwaith 14-19 lleol.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gyda phob un o'i phartneriaid strategol ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol sylweddol ar safonau a lles disgyblion, ac mae'n llwyddiannus iawn ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus.

Mae gan yr ysgol rôl weithredol mewn trefniadau llywodraethu ar y cyd gyda'r coleg addysg bellach ac ysgolion uwchradd eraill yn yr awdurdod lleol. Mae trefniadau

sicrhau ansawdd cadarn ar y cyd rhwng pob darparwr yn y bartneriaeth 14-19. Mae'r ysgol yn cydgyfrannu adnoddau gyda darparwyr eraill yn dda i sicrhau darbodion maint ac effeithlonrwydd.

Mae gan yr ysgol berthynas gref iawn gyda rhieni. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddulliau i ymgysylltu â rhieni, yn cynnwys prosiectws digidol sydd ar gael ar y rhyngwyd a chymhwysiad y gellir ei lawrlwytho oddi ar y we gyda newyddion a chyhoeddiadau am yr ysgol. Mae'r ymgysylltiad gweithgar iawn â rhieni wedi cael effaith sylweddol ar wella presenoldeb mewn nosweithiau rhieni yn ogystal â lleihau nifer yr absenoldeb anawdurdodedig.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae'r ysgol yn rheoli ac yn defnyddio staff ac adnoddau ariannol yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i fodloni gofynion y cwricwlwm. Mae gan y staff gymwysterau da ac mae'r ysgol yn eu defnyddio'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau datblygedig i bennu costau a chynllunio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Caiff cyllid ei ddyrannu'n briodol yn unol â'r blaenoriaethau yn y cynlluniau ar gyfer datblygu'r ysgol a datblygu pynciau. Mae'r pennaeth, rheolwr busnes a llywodraethwyr yr ysgol yn monitro'r gyllideb yn agos. Yng ngoleuni'r safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) wedi cynyddu'n gyson. Er 2008, mae perfformiad wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac roedd ymhlith y 25% uchaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac eithrio yn 2009.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 3 wedi bod yn gyson uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac yn y 50% uwch o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn fwy amrywiol ond mae'n agos at berfformiad ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y pynciau craidd ar lefel 6 neu'n uwch wedi bod cryn dipyn yn well na pherfformiad ysgolion tebyg. Roedd cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn rhagorol.

Yng nghyfnod allweddol 4, er 2008, mae canlyniadau trothwy lefel 2 (sydd gyfwerth a chyflawni pum gradd A*-C neu fwy mewn TGAU) yn cynnwys Saesneg a mathemateg, wedi bod gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac ymhlith y 25% uchaf o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd hwn wedi bod ymhlith yr uchaf yn y teulu o ysgolion am y tair blynedd diwethaf. Er 2009, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac wedi golygu bod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg, ac eithrio yn 2011. Er 2009, mae canlyniadau'r dangosydd pwnc craidd wedi bod yn uwch na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru a'r teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r canlyniadau ar gyfer trothwy lefel 1 (cyfwerth â phum cymhwyster TGAU gradd D i G) wedi gwella ac mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg erbyn hyn. Er 2010, mae'r sgôr pwyntiau wedi'i gapio wedi bod ymhlith yr uchaf yn y teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol heb ennill o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig. Ar ôl Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymateb i'r holiaduron i ddysgwyr

Cafodd Estyn ymatebion gan 225 o ddisgyblion a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod rhywun y gallant siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn ag aros yn iach a bod digonedd o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r gyfran sy'n credu bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i fod yn iach gryn dipyn yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Dywed bron pob un o'r disgyblion bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith, a dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Mae'r gyfran sy'n credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

Dywed bron pob un o'r disgyblion fod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod staff yn eu parchu nhw a'u cefndir ac yn trin pob disgybl yn deg gan ddangos parch atynt. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn gwrandao ar eu safbwyntiau ac yn gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Eto, mae'r gyfran sy'n dweud hyn gryn dipyn yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion y cawsant gyngor da ar gyfer dewis cyrsiau a bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer y coleg neu'u bywyd gwaith.

Ymatebion i'r holiaduron i rieni a gofalwyr

Llenwyd cant un deg pedwar o holiaduron i rieni neu ofalwyr, a mynegodd rhieni safbwyntiau cadarnhaol iawn am yr ysgol ar y cyfan.

Mae bron pob un o'r rhieni'n fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Dywed bron pob un o'r rhieni fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a'i fod/bod wedi cael cymorth i ymgynffwrdd pan ddechreuodd yn yr ysgol. Mae pob un o'r rhieni'n ystyried bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod yr addysgu'n dda, ac mae bron pob un ohonynt yn credu bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau.

Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau. Mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod gwaith cartref yr ysgol yn adeiladu'n dda ar waith ysgol, bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod staff yn trin pob plentyn yn deg gan ddangos parch atynt. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol ac mae llawer ohonynt yn credu bod eu plentyn yn barod ar gyfer y cyfnod dysgu nesaf neu gyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod yr ysgol yn eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Mae cyfran y rhieni sy'n dweud hyn yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae bron pob un ohonynt yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Catherine Evans	Arolygydd Cofnodol
Denise Wade	Arolygydd Tîm
Sue Morgan	Arolygydd Tîm
Barry Norris	Arolygydd Tîm
Edward Tipper	Arolygydd Lleyg
Sandra Joy	Arolygydd Cymheiriaid
Wendy Jones	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---